

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Gwasanaethau Fflyd a Pheirianeg
Swydd	Technegydd Cerbydau Modur
Rhif y Swydd	504965
Gradd	9
Lleoliad	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Darparu Gwasanaethau

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am wasanaethu, trwsio, cynnal a chadw cerbydau, peiriannau trymion ac offer yn ddyddiol gan gynnwys gweithdrefnau archwilio a phrofi.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. I fod yn gyfrifol am wasanaethu, trwsio a chynnal a chadw cerbydau, peiriannau trymion ac offer GTADC yn ddyddiol gan gynnwys profi gweithdrefnau archwilio a phrofi.
2. I weithio fel gweithredwr aml-sgiliau gan ymgymryd â'r disgyblaethau canlynol:- darganfod a chywiro diffygion systemau mecanyddol a thrydanol, defnyddio prosesau weldio amrywiol i drwsio a saernïo, asesu diffygion a thrwsio systemau hydroleg a niwmatig.
3. I gyfranogi mewn hyfforddiant a mentora Prentisiaid a Hyfforddai.
4. I gasglu a darparu cerbydau, peiriannau trymion ac offer ar gyfer trwsio / cynnal a chadw o fewn neu'r tu allan i ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
5. I fod yn gyfranogol yng nghynllun wrth gefn 24 awr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel rhan o'r amserlen ddyletswydd a chyflawni oriau ychwanegol rhesymol y tu allan i oriau gwaith yn ôl y gofyn.

- 6 I fynychu ar benwythnosau a thu hwnt i oriau gwaith cyffredin i fodloni gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub.

GOFYNIION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd.
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Cymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall.

